# Cyngor Caerdydd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25

**CYNNWYS**

| | |
|---|---|
| **Cwmpas Cyfrifoldeb** | **tudalen 3** |
| **Diben y Fframwaith** | **tudalen 3** |
| **Y Fframwaith Llywodraethu** | **tudalen 4** |
| **Y Broses Asesu a Chrynodeb** | **tudalen 4** |
| **Datganiadau Sicrwydd** | **tudalen 6** |
| • **Datganiad yr Uwch Dîm Rheoli** | **tudalen 6** |
| • **Datganiad y Rheolwr Archwilio a'r Farn Flynyddol** | **tudalen 8** |
| • **Datganiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** | **tudalen 10** |
| **Fframwaith Llywodraethu: gwybodaeth ategol** | **tudalen 12** |
| **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | **tudalen 30** |
| **Ardystiad** | **tudalen 31** |

## Cwmpas Cyfrifoldeb

1. Mae Cyngor Dinas Caerdydd (y Cyngor) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo'n gywir, a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ei fusnes, a hwyluso'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

2. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am Awdurdod Harbwr Caerdydd. Y Cyngor yw'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro (y Gronfa Bensiwn) ac Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd (AIPC). Mae gan Gyngor Caerdydd berchenogaeth lwyr ar bum is-gwmni yr oedd tri ohonynt wedi masnachu'n weithredol yn 2024/25, yn fwyaf arwyddocaol, Cardiff City Transport Services Ltd. (Bws Caerdydd). Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn amrywiol Gyd-bwyllgorau ac mae'n gorff atebol dros Archifau Morgannwg, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Prosiect Gwyrdd.

3. Dogfennir y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) wrth ystyried meysydd cyfrifoldeb y Cyngor, ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn gyfrifol am lywodraethu.

4. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r fframwaith 'Cyflawni Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol' (y Fframwaith Llywodraethu), a ddatblygwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (*SOLACE*). Mae'r DLIB hwn yn esbonio sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Fframwaith Llywodraethu a hefyd sut mae'n bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) (Diwygio) 2018.

## Diben y Fframwaith Llywodraethu

5. Mae'r Fframwaith Llywodraethu'n cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd y mae'r Cyngor yn cael ei gyfeirio a'i reoli ganddynt, ynghyd â'r gweithgareddau a ddefnyddia i fod yn atebol i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi sut y gwneir penderfyniadau a'r gweithdrefnau a ddilynir trwy gyfrwng rheolau, codau, ymarfer a phrotocolau.

6. Mae'r system rheoli mewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac fe'i dyluniwyd i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ond mae'n broses barhaus o adnabod, blaenoriaethu a rheoli risg yn briodol.

7. Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn dogfennu sut rydym yn cymhwyso egwyddorion llywodraethiant da (fel y'u crynhoir yn Adran 4 y DLIB – Proses Asesu a Chrynodeb). Gellir dod o hyd i'r Cod hwn yng Nghyfansoddiad y Cyngor (Rhan 5) ac fe'i cadarnhawyd ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2023.

8. Ar gyfer 2024/25 mae'n ofynnol i'r DLIB fod yn gyson â'r egwyddorion llywodraethiant da a nodir yn Cyflawni Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (Fframwaith Llywodraethu) (CIPFA a Solace, 2016). Wrth edrych ymlaen, mae canllawiau newydd gan CIPFA a Solace ar yr adolygiad blynyddol o lywodraethiant a rheolaethau mewnol a pharatoi datganiad llywodraethu blynyddol (DLIB) yn creu Atodiad i'r Fframwaith presennol. Mae'n berthnasol i ddatganiadau llywodraeth leol y DU o 2025/26 ymlaen.

9. Mae'r Atodiad yn ychwanegiad naturiol i'r fframwaith presennol, gyda chanllawiau wedi'u diweddaru ar yr adolygiad blynyddol o lywodraethiant a'r DLIB. Mae'n cefnogi datblygu cod llywodraethu lleol sy'n dangos sut mae egwyddorion llywodraethiant yn cael eu rhoi ar waith yn eu hawdurdod. Gan fod gan y Cyngor God sydd wedi ei sefydlu, caiff hwn ei ddiweddaru a'i gymeradwyo gan y Cyngor gyda mewnbwn gan y Pwyllgor Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ymgorffori'r meysydd a gwmpesir yn yr atodiad yn Hydref 2025/26.

10. Mae'r Atodiad yn adlewyrchu newidiadau mewn rheoliadau ac arferion llywodraeth leol ers cyhoeddi'r fframwaith gwreiddiol ac mae'n cyfeirio at yr angen i gynnwys persbectif blaengar, gan ystyried lle mae angen i lywodraethiant newid neu ddatblygu i ddiwallu anghenion yr awdurdod yn y dyfodol.

11. Er bod y DLIB hwn wedi'i baratoi i gadw at god 2016, lle bu'n bosibl ymgorffori canllawiau o'r atodiad eleni, mae hyn wedi'i nodi yn rhannau perthnasol y datganiad.

**Y Fframwaith Llywodraethu**

12. Mae'r Fframwaith yn cynnwys dwy egwyddor graidd a phum egwyddor ategol. Mae egwyddorion A a B yn rhedeg drwy egwyddorion C i E ond mae llywodraethiant da yn ddeinamig ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella llywodraethiant yn barhaus trwy broses arfarnu ac adolygu. Mae'r saith egwyddor yma yn parhau i fod heb eu cyffwrdd gan yr atodiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar Gyflawni Llywodraethiant Da.

***Egwyddorion craidd:***

A. Ymddwyn â gonestrwydd, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a pharchu rheolaeth y gyfraith
B. Sicrhau ymgysylltu agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid

***Egwyddorion ategol:***

C. Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
D. Penderfynu pa ymyriadau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni cymaint o'r canlyniadau a fwriedir â phosib
E. Datblygu capasiti'r endid, yn cynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono
F. Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn

G. Rhoi arfer da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn cynnig atebolrwydd effeithiol.

**Y Broses Asesu a Chrynodeb**

13. Mae'r DLIB yn crynhoi'r asesiad o'r llywodraethiant yn erbyn y fframwaith llywodraethu ac mae'n cynnwys tair elfen:

- Datganiadau gan yr Uwch Dîm Rheoli, y Rheolwr Archwilio a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Dadansoddiad ategol wedi ei fapio i'r craidd ac egwyddorion llywodraethiant da ategol sy'n cynnig barn wedi ei seilio ar wybodaeth ategol a thystiolaeth
- Barn yr Uwch Dîm Rheoli ar broblemau llywodraethiant sylweddol y Cyngor

14. Mae'r tair elfen uchod gyda'i gilydd yn cynrychioli asesiad o'r llywodraethiant o safbwynt yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh) a barn ar wahân y Rheolwr Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar sail eu rhaglenni gwaith nhw ac asesiad o'r system rheoli mewnol.

15. Am ragor o wybodaeth a manylion, mae'r wybodaeth ategol wedi'i chysylltu ag egwyddorion (A-E) y Fframwaith Llywodraethu yn y DLIB ac yna ceir datgeliad agored gan yr UDRh ynghylch y materion llywodraethu sylweddol sy'n effeithio ar y sefydliad ar ffurf camau gweithredu cryno i'w rhoi ar waith a mynd i'r afael â nhw.

Mae'r diagram yn ffig. 1 yn dangos cydrannau'r asesiad hwn.

**Ffig 1.**



## Datganiadau Sicrwydd

16. Gwneir y datganiadau canlynol ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth ynghylch perfformiad, datgeliadau llywodraethiant a chanfyddiadau'r adroddiadau rheoleiddiol gan aseswyr mewnol a rhai allanol i'r Cyngor.

## Datganiad Uwch Dîm Rheoli 2024/25

17. Defnyddir cyfres o ddatganiadau sicrwydd uwch reolwyr fel mesur craidd o sicrwydd ar lywodraethiant da o fewn pob cyfarwyddiaeth ac ar gyfer y Cyngor yn gyffredinol.

18. Fel Uwch Dîm Rheoli, rydym wedi cynnal adolygiad o'r ymarfer hunanasesu i gynnal sicrwydd mai'r meysydd dan ystyriaeth yw'r meysydd cywir i farnu'r sefydliad yn eu herbyn. Y naw categori bras i'w hystyried yw: Cynllunio a Rheoli Perfformiad, Risg; Partneriaethau, Ymgysylltiad, Cydymffurfiaeth; Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau, Cyllideb; Rheolaeth a Thwyll. Yn ogystal, ystyriodd yr UDRh gamau gweithredu a nodwyd sy'n deillio o DLlB y llynedd o ran adolygiadau perfformiad, Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ymgysylltiad ac Is-sicrwydd ac maent wedi penderfynu bod pob un o'r camau gweithredu hyn bellach wedi cau.

19. Rydym yn parhau i gymhwyso'r ymarfer hunanasesu fel prif fodd o fesur cyflawni llywodraethiant da ac mae sesiynau her yn parhau i gael eu cadeirio gan y Prif Weithredwr lle rhoddir ystyriaeth i'r sefyllfa sicrwydd bresennol ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth.

20. Cynhaliwyd ein hymarfer asesu llywodraethiant da yn ystod cyfnod o ansicrwydd economaidd a chynnydd sylweddol yn y galw am ein gwasanaethau, yn enwedig o ran Gofal Cymdeithasol ac Addysg, a chynnydd chwyddiannol mewn cyflogau. Rydym ni, fel Uwch Dîm Rheoli, yn parhau i sicrhau bod yr ymarfer hunanasesu yn adlewyrchu'r realiti presennol o ddarparu gwasanaethau fel bod unrhyw faterion neu gamau gwella yn cael eu cofnodi.

21. Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi parhau i gyfarfod ddwywaith yn wythnosol ar gyfartaledd. Ffocws y cyfarfodydd hyn gydol y flwyddyn oedd sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol, bod canlyniadau'n cael eu cyflawni a bod rheolaethau'n parhau i fod ar waith neu'n cael eu diwygio i adlewyrchu'r sefyllfa ar y pryd.

22. Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi ymgysylltu â'r broses hunanasesiad sicrwydd ar gyfer 2024/25. Manteisiodd yr Uwch Dîm Rheoli ar y cyfle i adolygu'r sefyllfa diwedd blwyddyn ar ôl ystyried hunanasesiadau Cyfarwyddiaethau

23. Mae'r Uwch Dîm Rheoli o'r farn bod Datganiad Sicrwydd diwedd blwyddyn 2024/25 yr Uwch Dîm Rheoli yn cynnig adlewyrchiad cywir a theg o aeddfedrwydd llywodraethiant y Cyngor am y flwyddyn yn gyffredinol. Roedd yr asesiad diwedd blwyddyn hwn yn seiliedig ar yr aeddfedrwydd llywodraethiant y gallem ei dystiolaethu o fewn pob Cyfarwyddiaeth, y perfformiad yn erbyn cynlluniau gweithredu Cyfarwyddiaethau unigol a nodi unrhyw newid mewn sefyllfa.

24. Yn unol â hynny, mae'r Uwch Dîm Rheoli o'r farn bod y Cyngor, er gwaetha’r amgylchedd allanol heriol, yn arddangos cymhwysiad llywodraethiant da yn gyffredinol ar draws y meysydd sicrwydd, gydag enghreifftiau o ‘ymwreiddio’ a ‘chymysg’ mewn rhai meysydd sicrwydd mewn rhai Cyfarwyddiaethau. Roedd yr asesiad hwn ar sail hunanasesiad gan ddefnyddio system farcio 5 pwynt yn amrywio o ‘ddim eto ar waith’ i ‘cymhwysiad cyfyngedig’, i ‘cymhwysiad cymysg’ ‘cymhwysiad cryf’ i ‘wedi ymwreiddio’.

25. Roedd yr asesiad hwn yn ystyried y cynnydd yn erbyn y pedwar cam y cytunwyd arnynt ar gyfer Cynllun Gweithredu’r DLIB 2024/25. Mae cyfarwyddiaethau wedi targedu ansawdd yr adolygiadau perfformiad wrth geisio sicrhau bod cydymffurfiaeth lawn o 100% hefyd yn cael ei gyflawni. Yn gryno, mae'r cynnydd o ran y camau gweithredu fel a ganlyn:

- Adolygiadau perfformiad - Mae cyfarwyddiaethau wedi targedu cyfathrebu â rheolwyr a staff ac wedi derbyn adroddiadau yn ôl o ran yr hyn sydd wedi'i gyflawni.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi cytuno ar gyfer 2025/26 yr adroddir ar gydymffurfiaeth ag 8 modiwl hyfforddi gorfodol gyda diffyg cydymffurfio yn golygu nad yw'n bosibl i unigolyn gael ei raddio fel un sy'n cyflawni neu'n uwch.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn derbyn adroddiadau rheolaidd sy'n sgrinio pob darpar Adroddiad Cabinet ar gyfer yr angen am AEG ac yn tracio ei fod wedi'i gwblhau. Mae'r AEG yn cael ei adolygu'n annibynnol er mwyn sicrhau bod ansawdd o safon ddisgwyliedig.
- Gan adeiladu ar gwblhau AEG yn systematig, ystyrir cwestiwn sicrwydd Ymgysylltu penodol gan bob cyfarwyddiaeth ac ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael iddynt, graddiodd deg o'r deuddeg Gwasanaeth / Cyfarwyddiaeth eu hunain fel Cryf neu well gyda dim ond dau yn nodi eu hunain fel cymysg. Mae'r cyfarwyddiaethau hynny a nododd sicrwydd cymysg wedi nodi camau gweithredu penodol ar gyfer 2025/26 sy'n ceisio sicrhau bod yr holl weithgareddau ar draws y gyfarwyddiaeth yn rhoi sicrwydd llawn.
- Mae'r holiadur ar is-gwmnïau'r Cyngor wedi'i gwblhau ar gyfer pob cyfarwyddiaeth berthnasol ac mae'r canfyddiadau wedi'u defnyddio i lywio'r lefel sicrwydd ar bartneriaethau.

26. Ar ôl ystyried y pedwar cam gweithredu 2024/25 i'w cau, penderfynwyd y bydd tri cham gwella newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ar ôl ystyried pob cyfarwyddiaeth unigol, mae'r UDRh o'r farn bod dau gam gweithredu gwella newydd i'w cytuno ym meysydd Rheoli a Chydymffurfiaeth. Roedd y canfyddiadau Sicrwydd yn y ddau faes yma yn agosáu at fod yn gryf ond mae cam gweithredu wedi ei osod i sicrhau lefel ddyfnach o sicrwydd. Y cam gweithredu fydd darparu lefel gymesur o gymhwyso sicrwydd drwy’r naill gyfarwyddiaeth a’r llall a sicrhau bod meysydd risg uchel yn cael eu blaenoriaethu. Yn drydydd, cytunwyd ar gamau gwella o ran manteisio ar y cyfle a grëwyd gan y strwythurau uwch reoli newydd arfaethedig i atgyfnerthu negeseuon allweddol, ac i adeiladu eglurder a dyfnder i'r amgylchedd sicrwydd mewn cyfarwyddiaethau newydd sy'n cwmpasu meysydd risg.

27. O ran gwaith yr Uwch Dîm Rheoli yn 2024/25 gwnaethom barhau i fod yn gydberchnogion y Gofrestr Risg Gorfforaethol, gwnaethom adolygu pob risg gorfforaethol yn chwarterol, a monitro cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r materion llywodraethu sylweddol.

28. Mae'r Prif Weithredwr yn parhau i bwysleisio bod angen mynd i'r afael â meysydd gwendid. Mae ffocws parhaus ar weithredu argymhellion archwilio mewn mater amserol, cymesur ond rhoddir anogaeth gref o ran hunan-adnabod atebion a gwelliannau. Fel y nodwyd, mae heriau ac ansicrwydd mawr ar hyn o bryd ac yn y cyfnod nesaf, gan bwysleisio pa mor bwysig yw cynnal y gwaith o gyflawni safonau llywodraethiant a rheolaeth cyson ar draws yr holl gyfarwyddiaethau.

**Datganiad y Rheolwr Archwilio a Barn Flynyddol 2024/25**

29. Mae'r farn flynyddol hon yn cael ei pharatoi yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) a oedd ar waith tan 31 Mawrth 2025, a'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (SAMB) yn Sector Cyhoeddus y DU a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2025. Mae'r farn wedi'i pharatoi gan y Rheolwr Archwilio (Prif Weithredwr Archwilio at ddibenion y ddwy set o safonau). Yn ystod 2024/25, gweithredwyd y gwasanaeth archwilio yn unol â SAMSC, ond mae'r gwaith adrodd ar y farn flynyddol yn bodloni gofynion SAMSC a gofynion SAMB fel a ganlyn:

- Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) yn datgan bod 'rhaid i'r Prif Weithredwr Archwilio ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gellir eu defnyddio gan y sefydliad i lywio ei ddatganiad llywodraethu.' Mae'n rhaid i hwn fod yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Hefyd mae'n rhaid iddo gynnwys werthusiad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau wrth ymateb i risgiau o fewn y systemau llywodraethu, gweithrediadau a gwybodaeth.

- Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (SAMB) 11.3 (Cyfathrebu Canlyniadau) yn ei gwneud yn ofynnol bod 'rhaid i Brif Weithredwr Archwilio baratoi casgliad ar lefel sefydliadol ynghylch effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a/neu reolaeth'. Yn sector cyhoeddus y DU, rhaid i'r 'Prif Weithredwr Archwilio baratoi casgliad cyffredinol o'r fath o leiaf bob blwyddyn i gefnogi adroddiadau llywodraethu ehangach, gan fod yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau neu brosesau penodol i sectorau. Rhaid i'r casgliad cyffredinol hwn gynnwys llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth' (Nodyn Cymhwyso - SAMB yn Sector Cyhoeddus y DU).

30. Wrth baratoi a ffurfio'r farn hon, mae nifer o ffynonellau gwybodaeth, sicrwydd a mewnwelediad wedi'u hystyried, gan gynnwys:

- Ymgysylltiadau Archwilio Sicrwydd – Mae'r cynllun archwilio blynyddol seiliedig ar risg wedi'i gyflawni drwy ymagwedd o sicrhau'r sicrwydd a'r gwerth ychwanegol mwyaf posibl. Mae'r cynllun archwilio yn ymatebol i risg ac wedi'i lywio gan wybodaeth archwilio a chan sicrwydd presennol, gwybodaeth gan Uwch Reolwyr, monitro gweithgarwch, strategaethau a risgiau'r Cyngor a ffynonellau sicrwydd ehangach. Ar gyfer pob archwiliad, mae'r risgiau, y

pwysau a'r blaenoriaethau presennol yn parhau i lywio cwmpas yr archwiliad a'r profi.

- Ymgysylltiadau Archwilio Cynghorol - Mae’r Tîm Archwilio Mewnol yn cynnig mewnwelediad ac arweiniad ar feysydd rheoli wrth ddatblygu prosesau / newid ac mewn meysydd ehangach lle mae angen cymorth, yn gyffredinol ar gais rheolwyr. Roedd gwaith cynghorol nodedig yn 2024/25 yn ymwneud â Storfeydd Brindley Road, Ffreutur y Castell ac Adolygiad ar ôl Cau Neuadd Dewi Sant. Ym mhob un o'r meysydd adolygu hyn roedd yna faterion rheoli hysbys, a darparwyd adroddiadau, cyngor ac argymhellion manwl i reolwyr i gynnig llwybr i weithredu'r gwelliannau angenrheidiol. Er nad yw barn archwilio yn cael ei darparu'n ffurfiol ar archwiliadau cynghorol, caiff gweithrediad rheolaethau ei archwilio'n briodol a’i ystyried wrth ddarparu'r farn gyffredinol am amgylchedd rheoli'r Cyngor.

- Trafodaeth gyda’r Uwch Reolwyr – Cynhaliwyd cyfarfodydd perthnasoedd rheolwyr chwarterol gyda Chyfarwyddwyr neu eu cynrychiolwyr, mynychwyd cyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli yn rheolaidd gan y Rheolwr Archwilio, a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (Swyddog Adran 151) a’r Prif Weithredwr.

- Adolygiadau Risg a Llywodraethiant – Mae Cofrestrau Risg a Datganiadau Sicrwydd Uwch Reolwyr sy'n sail i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn destun adolygiad archwilio rheolaidd, ac ymgysylltiadau archwilio sicrwydd.

31. Yn seiliedig ar y rhaglen waith archwilio a wnaed i asesu'r fframwaith a chymhwysiad lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth, y farn flynyddol ar gyfer 2024/25 yw ***effeithiol gyda chyfle i wella.*** *Mae’r farn hon yn seiliedig ar gyflawni Cynllun Archwilio digonol, a gan gydnabod y pwysau sylweddol ar adnoddau’r Cyngor o ran galw a chyllidebau, a gafodd eu rheoli trwy ddiwylliant perfformio cadarn.*

32. Mae'r farn archwilio yn cynnwys asesiadau o lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth, ac mae'n cynnwys gwerthusiad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau wrth ymateb i risgiau o fewn y systemau llywodraethu, gweithrediadau a gwybodaeth.

- Mae’r mwyafrif o adolygiadau systemau sylfaenol a gynlluniwyd wedi'u cwblhau.

- Rhoddwyd sylw digonol i feysydd archwilio llywodraethu corfforaethol arfaethedig yn ystod y flwyddyn, a gefnogwyd gan ystod o ymgysylltiadau archwilio sicrwydd ar lefel cyfarwyddiaeth.

- Mae trefniadau rheoli risg corfforaethol wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, ac ystyrir bod rheoli risg cyfarwyddiaethau ar draws archwiliadau wedi'u cwblhau, ac adroddwyd bod lefel briodol o aeddfedrwydd rheoli risg ar waith ar gyfer hynny ar lefelau cyfarwyddiaeth.

33. Ystyriwyd bod yr amgylchedd rheoli ar gyfer systemau ariannol craidd yn ddigonol, a rhoddwyd dyfarniad o 'effeithiol' neu 'effeithiol gyda chyfle i wella' i'r rhan fwyaf o archwiliadau'n gyffredinol (79%). Ac eithrio archwiliadau a gynhaliwyd yn 2023/24 ond a gwblhawyd yn 2024/25, cafodd deg archwiliad ddyfarniad archwilio o 'annigonol ac angen gwelliant mawr' gan gydnabod yr angen am sylw i gyflawni rheolaethau cadarn. Ni roddwyd ddyfarniad o 'anfoddhaol' i unrhyw archwiliadau a gynhaliwyd yn 2024/25.

34. Mae pwysigrwydd cael y pethau sylfaenol yn iawn, o ran rheolaethau mewnol a rheoli perfformiad, ar adeg o bwysau ariannol ac o ran galw, wedi'i bwysleisio'n barhaus i reolwyr ar draws y Cyngor. Mae hyn yn adleisio negeseuon Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn adroddiad gan Archwilio Cymru ar y pwnc, a gefnogir yn llawn gan Archwilio Mewnol, a bydd yn parhau i fod yn thema allweddol mewn cyfathrebiadau i Uwch Reolwyr.

35. Mae sicrwydd a chymorth archwilio yn parhau i dargedu a monitro meysydd risg uchel. Rhoddir ffocws ar gwblhau archwiliadau yn amserol gyda chleientiaid archwilio ac i bwysigrwydd gweithredu argymhellion archwilio o fewn yr amserlenni gofynnol.

**Datganiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2024/25**

**Barn y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2024/25**

32. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2024/25, ystyrir mai barn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw bod gan y Cyngor, gan fwyaf, reoliadau mewnol a threfniadau llywodraethiant cadarn ar waith. Caiff risgiau strategol sy'n cynrychioli'r heriau gwirioneddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu eu nodi a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae enghreifftiau lle mae'r Pwyllgor yn parhau i fod â phryderon, a fydd yn cael eu hymgorffori yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26, yn cynnwys:

**Rheoli Cyllidebau**

33. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pwysau ariannol parhaus sydd ar y Cyngor ac yn nodi, er bod y sefyllfa ariannol gyffredinol wedi ei mantoli, bod rhai cyfarwyddiaethau penodol â gorwariant sylweddol, a bod angen gwella rheolaethau'r rheiny. Mae angen sylw a chamau gweithredu gan reolwyr mewn cyfarwyddiaethau i gyflawni'r arbedion cyllidebol a gynigiwyd. Mae rheoli cyllideb gadarn yn hanfodol yng nghyd-destun amgylchedd economaidd heriol, cyllid cyfyngedig parhaus a galw cynyddol am wasanaethau.

34. Mae'r her ariannol yn parhau i fod yn sylweddol gyda bwlch cyllidebol rhagamcanol o £122 miliwn dros y 4 blynedd nesaf. Rydym hefyd wedi cael gwybod am y gwaith parhaus sydd wedi'i gynllunio i gyflawni strategaeth y gyllideb ar gyfer 2025/26 a'r camau i fynd i'r afael â'r her ariannol ar gyfer 2026/27 a thu hwnt. Mewn tirwedd ariannol heriol, byddwn yn parhau i geisio sicrwydd ynghylch gwydnwch ariannol y Cyngor a'r gwaith o reoli cyllid y Cyngor drwy ein

hymgysylltiad â'r Swyddog Adran 151, a'r uwch swyddogion yr ydym yn eu gwahodd i gyfarfodydd y Pwyllgor yn rheolaidd. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yn ofalus y trefniadau rheoli cyllideb dros y flwyddyn i ddod, drwy edrych ar y defnydd o reoliadau rheoli ac ymyriadau priodol, a pharhau i atgyfnerthu disgwyliadau o ran cyflawni.

**Rheolaeth Fewnol**

35. Mae sicrwydd o ran cydymffurfiaeth a rheolaeth yn hanfodol. Ers nifer o flynyddoedd bu cyfyngiadau parhaus ar adnoddau, ynghyd â thwf mewn poblogaeth a mwy o alw ar wasanaethau cyhoeddus. Wrth i'r Cyngor wynebu heriau sylweddol yn y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau, mae'n parhau'n hanfodol nad yw rheoliadau mewnol yn cael eu hesgeuluso na'u hamharu, a bod rheoliadau cryf ar waith ar draws prosesau a systemau diwygiedig.

36. Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd uwch swyddogion i fod yn bresennol yn ei gyfarfodydd eleni, i roi cyfrif am eu darpariaeth o lywodraethiant da, rheoli risg a rheolaeth. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi parhau i dderbyn manylion yr holl Archwiliadau Mewnol a gwblhawyd, a'r sgorau sicrwydd priodol. Eleni, rydym wedi sylwi ar fylchau rheoli mewnol ynysig trwy adroddiadau ynghylch sicrwydd annigonol, a materion yn codi o adolygiadau archwilio cynghorol na ddarparwyd barn archwilio ar eu cyfer, ond y rhoddwyd gwybod i ni am welliannau gofynnol. Mae'n rhaid i'r rheolwyr gynnal systemau rheoli mewnol cadarn a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodwyd yn brydlon.

37. Rydym wedi cadw llygad fanwl ar gadernid rheolaethau o ran y swyddogaeth Rheoli Gwastraff. Ym mis Medi 2024, cawsom adroddiad Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau'r Cyngor (Swyddog Adran 151) ar ei adolygiad sicrwydd wedi'r achos, a ddilynodd euogfarn droseddol a dedfrydu pum unigolyn ym mis Tachwedd 2023 (pedwar cyn-weithiwr y cyngor ac un trydydd parti) am droseddau Deddf Llwgrwobrwyo a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth Rheoli Gwastraff (Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Clos Bessemer). Daeth yr adroddiad i'r casgliad ers achos Twyll y Bont Bwyso yn 2017, fod gwelliant sylweddol wedi bod yn y gwaith o reoli'r gwasanaeth gwastraff, y rheolaethau ar waith o fewn y gwasanaeth a'r data a gesglir gan y Tîm Cymorth Busnes Ailgylchu a Gwasanaethau Cymdogaeth.

38. Ym mis Ionawr 2025, adolygodd ein Pwyllgor reolaeth a setliad achos Anghydfod Treth Dirlenwi hir sefydlog gyda CThEF, gan gynnwys ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd, yn dyddio'n ôl i 2017. Cytunodd y Cyngor ar Setliad Terfynol ym mis Medi 2024, a'i dalu i CThEF ym mis Rhagfyr 2024. Roeddem yn fodlon â'r ymateb ac o'r farn nad oedd angen unrhyw ymchwilio pellach. Rydym wedi gofyn bod crynodeb o'r camau a gymerwyd ar draws y Cyngor yn deillio o'r gwersi a ddysgwyd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol, ac mae sgyrsiau ar ddatblygu map sicrwydd ar gyfer gweithgareddau cyfreithiol a rheoleiddiol wedi'u cynnal gyda'r Rheolwr Archwilio.

39. Mae gan y Pwyllgor fynediad at yr holl argymhellion Archwilio Mewnol a godwyd ac y cytunwyd arnynt, ac yn gallu gweld sylwadau rheoli a ddiweddarwyd hyd at y pwynt gweithredu. Er bod sicrwydd cyffredinol gan y Pwyllgor o ran rheolaeth fewnol, rydym yn parhau i ofyn i swyddogion roi cyfrif am wasanaethau neu swyddogaethau lle nodwyd gwendidau o ran rheolaeth fewnol. Rydym yn parhau i herio unrhyw ddiffyg o ran stiwardiaeth a rheolaeth yn ymwneud ag arian ac asedau cyhoeddus, gan fynnu camau gweithredu buan, cymesur reolwyr. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 a bydd yn monitro ei gynnydd a chanfyddiadau'n fanwl dros y flwyddyn i ddod.

**Gwydnwch Ariannol (yn cynnwys Rheoli'r Trysorlys)**

40. Ar adeg pan fo arian yn brin, bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried y fframwaith ar gyfer penderfyniadau ariannol. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar wydnwch ariannol gan y Swyddog Adran 151 ac wedi derbyn sicrwydd rheolaidd a ddarparwyd gan Archwilio Mewnol.

41. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i chwilio am sicrwydd bod arferion a strategaeth rheoli trysorlys cadarn ar waith. Mae hyn yn waith hanfodol a fydd yn diogelu ac yn darparu gwerth gorau o ran benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor wedi, a bydd yn parhau i geisio sicrwydd bod lefelau a phroffiliau buddsoddi a benthyca yn briodol ac yn unol â'r Arferion, y Strategaeth a'r Adroddiadau a gyflwynwyd ar Reoli'r Trysorlys.

**Llywodraethu Ysgolion**

42. Mae'r Pwyllgor wedi ceisio adroddiadau rheolaidd gan uwch-reolwyr yn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes gan ofyn am sicrwydd parhaus ar y trefniadau i reoli mantolenni ysgolion, ac i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio. Mae ein Pwyllgor wedi mynegi pryderon ynghylch oedi wrth weithredu argymhellion archwilio ysgolion ac mae'n awyddus i weld gwelliannau.

43. Mae ein Pwyllgor wedi nodi gwelliannau cadarnhaol a wnaed, fel y cydnabu Estyn, a byddwn yn parhau i fod â diddordeb brwd yn y trefniadau llywodraethu a'r sicrwydd a dderbyniwn yn ymwneud ag ysgolion. Mae hyn ar sail dealltwriaeth y gall y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ofyn i'r rheiny sy'n uniongyrchol gyfrifol am lywodraethu ar lefel ysgol unigol ddod i gyfarfod Pwyllgor, os yr ystyrir nad yw'r sicrwydd a gaiff ei roi yn sicrwydd digonol.

44. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod na all y Cyngor bennu rheolau i ysgolion lynu wrthynt o ran materion contractio, er y gall gynnig cyngor ar arfer da. Mae'r maes diddordeb hwn yn parhau'n flaenoriaeth i'r Pwyllgor ac rydym yn parhau i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu a defnyddio canllawiau arfer gorau mewn ysgolion i atgyfnerthu stiwardiaeth a rheolaeth ariannol.

## ii) Y Fframwaith Llywodraethu - Gwybodaeth Ategol

### A. Ymddwyn gyda gonestrwydd, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.

45. Mae gofyn i bob Aelod a Swyddog Cyngor gydymffurfio'n llawn â'r Codau Ymddwyn fel y'u nodwyd yn y Cyfansoddiad, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau penodol y Swyddogion a'r Aelodau ac yn egluro'r rhyngwyneb rhwng y rolau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Swyddogaethau ac isadrannau a ddirprwyir i Swyddogion.
- Cod Ymddygiad Aelodau (gan gynnwys Egwyddorion Cyfryngau Cymdeithasol)
- Cod Ymddygiad Gweithwyr
- Protocol Perthnasoedd Aelodau / Swyddogion

46. Y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yw'r Swyddog Monitro ac mae ganddo ddyletswydd benodol i sicrhau bod y Cyngor, ei Swyddogion a'r Cynghorwyr Etholedig yn arfer y safonau ymddygiad uchaf ym mhopeth a wnânt yn seiliedig ar Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 5, paragraff 24 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

47. Mae gan y Pwyllgor Safonau a Moeseg gyfrifoldeb i fonitro a chraffu ar safonau moeseg y Cyngor, ei Aelodau, ei gyflogeion ac unrhyw ddarparwyr cysylltiedig sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r Cyngor, ac adrodd wrth y Cyngor am unrhyw fater sy'n peri pryder. Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan berson annibynnol ac mae rôl y person hwnnw yn cynnwys pennu canlyniad cwynion yn erbyn Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig a monitro gweithdrefnau chwythu'r chwiban y Cyngor.

48. Yn 2024/25, hysbyswyd y Swyddog Monitro am gyfanswm o wyth cwyn yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau, pump ohonynt yn ymwneud â Chynghorwyr Caerdydd a thri yn ymwneud â Chynghorwyr Cymunedol. Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ystyried pob un o'r cwynion ac wedi penderfynu peidio ag ymchwilio i saith o'r achosion (a oedd yn cynnwys y 3 achos yn ymwneud â Chynghorwyr Cymuned) gan nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri'r cod ymddygiad. Ymchwiliwyd i un achos (yn ymwneud â Chynghorydd o Gaerdydd) gan yr Ombwdsmon, a benderfynodd, yn dilyn ymchwiliad, nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri'r cod ymddygiad, felly nid oedd angen camau pellach.

49. Bydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn cyflwyno ei Adroddiad Blynyddol 2024/25 ar 23 Medi 2025 gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 25 Medi 2025. Mae'r prif feysydd gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cynnwys adolygiad trylwyr o ddyletswyddau statudol newydd Arweinyddion Grŵp o ran safonau ymddygiad aelodau eu grŵp, a threfniadau i'r Pwyllgor fonitro cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hynny. Hefyd fe ystyriwyd canlyniadau'r Arolwg o Ymddygiad Aelodau a'r camau a gynigiwyd yn ogystal â'r Pwyllgor yn argymell y dylid cynnal hyfforddiant gloywi ar y Cod Ymddygiad Aelodau (a drefnwyd ar gyfer Hydref 2025). Yn dilyn adolygiad o Ymrwymiad Caerdydd, cafodd yr argymhelliad a wnaeth y Pwyllgor i ddileu yr ymrwymiad ei weithredu wedyn gan y Cyngor. Cynhaliwyd adolygiad o'r Polisi Chwythu'r Chwiban ac argymhellwyd a chymeradwywyd Polisi Chwythu'r Chwiban diwygiedig gan y Cabinet ar 21 Tachwedd 2024.

50. Mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor yn nodi sut y gall gweithwyr (gan gynnwys staff y Cyngor a chontractwyr) godi pryderon heb ofn erledigaeth, gwahaniaethu neu anfantais. Chwythu'r chwiban yw'r term a ddefnyddir pan fydd gweithiwr yn trosglwyddo gwybodaeth am gamymddwyn yn y gwaith ac mae'r polisi yn nodi rhestr wedi'i diweddaru o'r math o bryderon y gellir eu codi o dan y polisi tra'n ei gwneud yn glir y dylai gweithwyr godi unrhyw bryderon o'r fath o dan y Polisi Chwythu'r Chwiban a dangos bod gan y Cyngor weithdrefnau priodol ar waith i amddiffyn unrhyw un sy'n codi'r mathau hynny o bryderon. Gellir dod o hyd i grynodeb o'r newidiadau allweddol a wnaed yn yr Adroddiad Cabinet Chwythu'r Chwiban

51. Mae gan y Cyngor Bolisi Chwythu'r Chwiban ar waith a thrwy hwnnw, anogir staff a chontractwyr i godi llais am achosion o gamymddwyn neu ymddygiad anghyfreithlon yn y sefydliad, sy'n effeithio ar y cyhoedd ac eraill (gan wneud datgeliad er budd y cyhoedd). Yn 2024/25 adroddwyd am gyfanswm o ddau achos chwythu'r chwiban i'r Swyddog Monitro ac maent wedi eu hymchwilio ac ni nodwyd unrhyw gamwedd ond mae'r ddau wasanaeth dan sylw wedi ymrwymo i adolygu prosesau i sicrhau y manteisir ar gyfleoedd i wella.

52. Mae angen i'r Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig gofrestru eu buddiannau personol mewn unrhyw fusnes sy'n ymwneud â'r awdurdod, a chydymffurfio â'r rheolau ar fuddiannau personol a nodir yn y Cod Ymddygiad Aelodau. Cyhoeddir yr holl fuddiannau personol a ddatgelir gan yr Aelodau ar wefan y Cyngor yn yr wybodaeth ar broffiliau'r Aelodau. Mae Polisi'r Cyngor ar Fuddiannau Personol ac Ail Swyddi Swyddogion yn mynnu bod staff yn datgelu unrhyw fuddiant personol sydd yn neu a allai wrthdaro â'u dyletswyddau i'r Cyngor ac unrhyw swyddi eraill. Mae'r polisi'n nodi bod rhaid i bob un o gyflogeion y Cyngor, dan y Cod Ymddygiad Cyflogeion, sicrhau nad yw ei fuddiannau preifat yn gwrthdaro â'i ddyletswyddau cyhoeddus, a chydymffurfio â rheolau'r Cyngor ar gofrestru a datgan buddiannau ariannol ac anariannol.

53. Mae Gwerthoedd Corfforaethol y Cyngor yn canolbwyntio ar degwch, bod yn agored a chydweithio. Mae'r Cyngor yn cefnogi diwylliant o ymddygiad sy'n seiliedig ar y gwerthoedd hyn sy'n llywio sut y caiff gweledigaeth hirdymor y Cyngor ei rhoi ar waith, yn ogystal â sut mae'r Aelodau a'r Swyddogion yn cyflawni eu rolau dydd i ddydd. Mae gwaith cynllunio Corfforaethol a Chyfarwyddol a threfniadau datblygiad a pherfformiad personol yn cyd-fynd â chyflawni gwerthoedd a blaenoriaethau corfforaethol.

54. Mae Strategaeth y Gweithlu a'r Siarter Cyflogeion yn parhau i sicrhau bod gweledigaeth a gwerthoedd y Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol yn cyd-fynd:

- Mae'r Siarter Cyflogeion yn nodi disgwyliadau'r holl staff (cyflogeion, rheolwyr ac uwch reolwyr) ac mae wedi ffurfio rhan o'r broses gosod amcanion ar gyfer adolygiadau personol.

- Mae Strategaeth y Gweithlu'n ceisio sicrhau canlyniadau ar gyfer a gyda'r cyflogeion, o fewn diwylliant sy'n cefnogi gweithlu hyblyg, cymwys, ymgysylltiedig ac amrywiol.

55. Mae’r Cyngor yn trin twyll, llygredd a chamweinyddu fel materion difrifol iawn, wedi eu cefnogi a’u hatgyfnerthu gan y strategaeth a’r polisïau canlynol er mwyn atal a rheoli achosion o’r fath:

- Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd
- Rheolau Gweithdrefnau Ariannol
- Rheolau Caffael ac Archebion Sefydlog Contract
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd
- Polisi Atal Gwyngalchu Arian
- Polisi Diogelwch TGCh
- Polisi a Gweithdrefn Diogelu Data
- Polisïau AD ynghylch ymchwilio a disgyblu staff

56. Cyflwynodd y Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd fodiwl hyfforddi gorfodol newydd i'r holl staff i'w gwblhau yn ystod 2024/25 gyda'r nod o gael cyfradd gwblhau o 100% erbyn diwedd 2025/26. . Mae’r Cyngor yn parhau i gael ei gefnogi gan amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a rheoliadau sy'n cael eu hadolygu er priodoldeb, gan gynnwys y rheiny sy’n ymwneud â Rheolaeth Ariannol, Diogelu Data, Iechyd a Diogelwch, Cydraddoldeb a Diogelwch TG.

## B. Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid.

57. Trwy ei Werthoedd Corfforaethol, mae’r Cyngor yn nodi ymrwymiad i fod yn “agored a gonest ynghylch y penderfyniadau anodd sy’n ein hwynebu, a rhoi’r cyfle i bobl ddweud eu dweud ynghylch yr hyn sy’n bwysig iddynt a’u cymunedau.” Mae ymgynghori, ymgysylltu a chydweithio â dinasyddion yn ganolog er mwyn cyflawni’r gwerth hwn a chânt eu cyflwyno fel a ganlyn.

58. Mae cyfarfodydd wedi parhau’n agored i’r cyhoedd, ac eithrio pan drafodir gwybodaeth gyfrinachol neu a eithrir, yn unol â’r gyfraith. Parhaodd cyfarfodydd Llawn y Cyngor i gynnwys cyfle ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd ac mae Pwyllgorau Craffu’r Cyngor wedi gwahodd cyfraniadau gan randdeiliaid at eu rhaglen graffu, trwy ymchwil ac ymarferion ymgynghori a chyfle uniongyrchol i drafod â’r Pwyllgorau.

59. Mae gan y Cyngor bolisi Cyfarfodydd Aml-leoliad cymeradwy sy’n fwy na'r gofyniad deddfwriaethol i ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd pwyllgor ychwanegol a glustnodwyd er budd y cyhoedd neu'r rheini â rôl lywodraethiant i gael eu gwe-ddarlledu. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys y Cyngor, y Cabinet, y Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Safonau a Moeseg a Phwyllgorau Craffu gyda chyfarfodydd eraill yn cael eu recordio a'u cadw er mwyn cyfeirio atynt.

60. Mae'r tabl canlynol yn tynnu sylw at weithgaredd gwe-ddarlledu dros y tair blynedd diwethaf. Bu cynnydd yn nifer gwe-ddarllediadau o gyfarfodydd yn 2024/25 ac er bod y niferoedd gwylio byw wedi gostwng, parhaodd tuedd y cynnydd yng

nghyfanswm pob gwylio ar we-ddarllediadau 9% i ddychwelyd bron i lefel debyg i gyfanswm pob gwylio a gyflawnwyd yn 2022/23.

| Data Gwe-ddarlledu | | | |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
| Nifer y Cyfarfodydd a we-ddarlledwyd | 88 | 94 | 11 5 |
| Nifer y Pwyllgorau (Mathau) a we-ddarlledwyd | 14 | 11 | 14 |
| Cyfanswm Oriau Gwe-ddarlledu | 177:55:44 | 179:32:50 | 182:57:31 |
| Gwylio'n fyw | 4,871 | 4,499 | 3,584 |
| Gwylio o'r Archif | 13,287 | 11,939 | 14,337 |
| Cyfanswm Pob Gwylio | 18,158 | 16,438 | 17,921 |

61. Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli risg ar waith sy'n mynegi risgiau'r Cyngor, wedi'u hadrodd a'u hadolygu bob chwarter yng nghyfarfod yr UDRh, gyda herio a goruchwyliaeth bellach gan y Cabinet, Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r broses yn cael ei chefnogi gan ddiwylliant o drafodaeth agored a her adeiladol ar faterion perfformiad a rheoli risg. Mae UDRh y Cyngor yn parhau i chwarae rôl sicrwydd bwysig gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn ceisio sicrwydd yn rheolaidd o ran nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys diogelu a rhianta corfforaethol, cydymffurfiaeth caffael, rheoli perfformiad a chynnydd o ran argymhellion archwilio mewnol ac allanol.

62. Gall y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill rannu eu barn a darparu adborth ar wasanaethau'r Cyngor drwy Bolisi Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaeth y Cyngor. Mae'n adlewyrchu'r arweiniad a roddir gan Bapur Canllaw a Pholisi Model Llywodraeth Cymru ar Ymdrin â Chwynion, yn ogystal ag arweiniad a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sydd bellach yn rhoi pwyslais mwy ar ddatrys cwynion yn brydlon. Caiff y Cabinet wybod bob blwyddyn am nifer y cwynion a ddaw i law.

63. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â threfniadau sydd ar waith i sicrhau bod llais dinasyddion yn rhan o drefniadau cynllunio a chyflawni'r Cyngor. Mae seilwaith ymgysylltu cadarn yn caniatáu ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion, cymunedau a phartneriaid, gydag Ymgynghoriad Cyllideb y Cyngor a'r arolwg Holi Caerdydd, sy'n ceisio barn ar ystod o ddatganiadau Ansawdd Bywyd ac Ansawdd Gwasanaethau, gan fod yn enghreifftiau nodedig o hynny. Mae allbwn y rhain yn llywio blaenoriaethau'r Cyngor, yn cefnogi datblygu cynigion polisi ac yn llywio cynllunio gwasanaethau. Mae rhaglen o waith gwella wedi canolbwyntio ar gryfhau'r cysylltiadau rhwng allbynnau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gweithgarwch ymgysylltu'r Cyngor, gan sicrhau y gall gweithgarwch ymgysylltu dargedu rhanddeiliaid perthnasol yn fwy effeithiol ar yr adeg briodol ac ar faterion o berthnasedd penodol. Mae'r rhaglen waith

hon hefyd wedi canolbwyntio ar sicrhau bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, lle bo angen, yn cael ei gwblhau'n rheolaidd, o ansawdd da ac yn cael sylw dyledus o fewn proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

64. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid sefydliadol y mae'r Cyngor yn atebol iddynt, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru a chyrff rheoleiddiol fel Archwilio Cymru. Gwnaed ymdrechion hefyd i feithrin perthnasoedd agored ac effeithiol rhwng y Cyngor Sir a'r chwe Chyngor Cymuned yng Nghaerdydd trwy Siarter y Cynghorau Cymuned ("y Siarter"). Mae'n adlewyrchu'r Siarter model a gyflwynodd Llywodraeth Cymru ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n seiliedig ar bartneriaeth gydradd rhwng y ddwy haen o lywodraeth leol.

65. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd yn cynrychioli partneriaeth statudol rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor i gyflawni Cynllun Llesiant y ddinas. Mae'r Cynllun Llesiant, sy'n ymateb i'r dystiolaeth o'r Asesiad Llesiant, yn canolbwyntio ar feysydd cyflawni gwasanaethau cyhoeddus sydd yn y bôn yn gofyn am waith partneriaeth rhwng sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus. Cefnogir BGC Caerdydd gan drefniadau llywodraethiant a chyflawni ar sail partneriaeth, ac maent yn adrodd yn ôl i'r BGC fesul chwarter. Cyfarfu BGC Caerdydd 5 gwaith yn ystod 2024/25 ac mae'n arwain ymateb strategol cydlynol i faterion allweddol ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas. Cymeradwyodd y Cyngor gynllun Lles Lleol Caerdydd 2023/28 ar 23 Mawrth 2023. O fewn y Cynllun Lles mae atodiad B sy'n nodi'r cynlluniau strategol perthnasol ar gyfer pob Aelod BGC gan dynnu sylw at y Cynllun Lles fel dogfen ategol. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC) yn cyhoeddi adroddiadau perfformiad blynyddol (Adroddiad Blynyddol BGC Caerdydd) ym mis Gorffennaf bob blwyddyn.

66. Mae'r BGC yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith partneriaeth, sy'n cynnwys dau neu fwy o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus, yng Nghynllun Llesiant y BGC. Mae Cynllun Llesiant y BGC wedi'i strwythuro o amgylch yr un saith nod llesiant â Chynllun Corfforaethol y Cyngor i sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei alinio tuag at flaenoriaethau a rennir.

## C. Diffinio deilliannau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

67. Mae'r weinyddiaeth yn nodi ei dyheadau ar gyfer y ddinas yn ei datganiad polisi "Cryfach, Tecach, Gwyrddach".

- **Dinas gryfach**, gydag economi sy'n creu ac yn cynnal swyddi sy'n talu'n dda, gyda system addysg sy'n helpu ein pobl ifanc i gyrraedd eu potensial, gyda thai da, fforddiadwy mewn cymunedau diogel, hyderus a grymus, i gyd yn cael eu cefnogi gan wasanaethau cyhoeddus effeithlon sydd â digon o adnoddau.

- **Dinas decach**, lle gall pawb fwynhau'r cyfleoedd o fyw yng Nghaerdydd, beth bynnag fo'u cefndiroedd, lle mae'r rheini sy'n dioddef effeithiau tlodi'n

cael eu diogelu a'u cefnogi, lle mae diwrnod teg o waith yn cael diwrnod teg o gyflog, a lle mae pob dinesydd yn cael ei werthfawrogi ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi hefyd.

- **Dinas werddach**, a fydd drwy ein rhaglen Caerdydd Un Blaned yn arwain ar ymateb i'r argyfwng hinsawdd, dinas sy'n dathlu ac yn meithrin bioamrywiaeth, gyda mannau agored o ansawdd uchel o fewn cyrraedd hawdd i orffwys a chwarae, sy'n gysylltiedig â dewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy cyfleus, hygyrch a diogel.

68. Lle mae 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' yn cynnig esboniad clir o flaenoriaethau polisi'r weinyddiaeth, mae fframwaith polisi'r Cyngor yn trosi'r rhain yn amcanion sefydliadol gyda cherrig milltir cyflawni cysylltiedig, dangosyddion perfformiad allweddol a'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau cynnydd.

69. Mae'r Cynllun Corfforaethol, felly, yn chwarae rhan allweddol wrth drosi uchelgeisiau polisi'r weinyddiaeth yn amcanion sefydliadol y gellir eu cyflawni. Yn y modd hwn, mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni, a sut y bydd yn trefnu ei hun i'w cyflawni. Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, caiff y Cynllun Corfforaethol ei lunio yn ôl Nodau, Camau a Mesurau Perfformiad Llesiant. Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi'i osod ar lefel strategol ac yn cael ei gefnogi gan gynlluniau cyflawni cyfarwyddiaethau, sydd yn eu tro yn nodi'n fanylach sut y bydd amcanion y Cynllun Corfforaethol yn cael eu cyflawni, yn ogystal â sut y bydd busnes cyfarwyddiaethau yn cael ei ddatblygu.

70. Mae'r Fframwaith Cynllunio a Pherfformiad yn ganolog i drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae'r Fframwaith yn nodi sut mae'r Cyngor yn nodi ac yn cytuno ar yr hyn y mae am ei gyflawni, sut mae'n mesur ac yn adrodd ar gynnydd a, lle bo angen, sut mae'n nodi ac yn cytuno ar gamau i wella perfformiad. Felly, mae tair elfen wahanol i Fframwaith Cynllunio a Pherfformiad y Cyngor:

- <u>Nodi a chytuno ar yr hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni</u>: Mae hyn er mwyn sicrhau bod pawb yn glir o ran sut olwg sydd ar llwyddiant ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid perthnasol, a gefnogir gan gynlluniau a chyllidebau realistig, atebolrwydd clir, metrigau a thargedau perfformiad.

- <u>Mesur ac adrodd ar gynnydd</u>: Mae hyn er mwyn sicrhau bod adroddiadau perfformiad yn amserol, wedi'u hintegreiddio, ac yn cynnwys manylion priodol a dynnwyd o ystod o ffynonellau perfformiad. Mae hefyd yn caniatáu i adroddiadau perfformiad gael eu datblygu drwy broses hunanasesu. Mae'r adroddiadau perfformiad yn llywio deialogau perfformiad cadarn sy'n cynnwys uwch arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol y Cyngor, a'i lywodraethiant gwleidyddol ehangach. Mae dull gweithredu'r Cyngor yn sicrhau ymhellach bod ei waith monitro perfformiad yn seiliedig ar ffeithiau a data gydag asesiad perfformiad yn destun her a chefnogaeth.

- <u>Nodi a chytuno ar gamau gweithredu i wella perfformiad</u>: Mae hyn er mwyn sicrhau bod trafodaethau ar berfformiad yn canolbwyntio ar wella ac yn

cynnwys camau gweithredu, a bod y camau hyn yn cael eu tracio fel rhan o fframwaith perfformiad y Cyngor.

71. Mae datblygu'r Adroddiad Llesiant Blynyddol, sef hunanasesiad o berfformiad y Cyngor, yn cynnwys arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol y Cyngor, gyda rolau manylach ar gyfer Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd hyn yn cynnwys:

- Hunanwerthusiad y gyfarwyddiaeth o berfformiad, llywodraethiant, heriau ariannol a blaenoriaethau gwasanaethau.
- Sesiynau sicrwydd perfformiad a chyllideb, dan arweiniad yr Arweinydd, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 gydag Aelodau'r Cabinet a Chyfarwyddwyr
- Y Panel Perfformio, a gynullwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad (APaPh), ac sy'n cynnwys Cadeiryddion pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor.
- Ystyriaeth gan Bwyllgorau Craffu APaPh a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Ystyriaeth o'r Asesiad Diwedd Blwyddyn (yr Adroddiad Llesiant Blynyddol) gan y Cyngor.

72. Cafodd hunanasesiad canol blwyddyn ar gyfer 2024/25 ei ystyried gan y Cabinet ar 12 Rhagfyr 2024, yn dilyn ymgysylltu â'r Pwyllgor Craffu APaPh. Mae'r adroddiad yn nodi'r heriau o ran rheoli'r cynnydd parhaus o ran cymhlethdod a graddfa'r galw ar draws gwasanaethau'r Cyngor, sicrhau gwydnwch gwasanaethau a gwydnwch ariannol, mynd i'r afael â phwysau'r gweithlu, ac ymateb i risgiau a phroblemau newydd. Er enghraifft, yn ystod 6 mis cyntaf 2024/25 gwelwyd y contractwr sy'n gyfrifol am ddarparu Campws Cymunedol y Tyllgoed, ISG Construction Ltd, yn mynd i ddwylo'r gweinyddwr.

73. Bydd y Cabinet yn ystyried Hunanasesiad Perfformiad Diwedd Blwyddyn (Adroddiad Lles) ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ar 18 Medi 2025 a'r Cyngor ar 25 Medi. Yn unol â dull y Cyngor, bydd yr Adroddiad Lles yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad y Cyngor a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'r broses hon.

74. Mae Sesiynau Her Thematig yn cael eu cynnull yn unol â Nodau Llesiant bob mis Ionawr / Chwefror. Mae'r sesiynau her yn cael eu cadeirio gan yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformio ac yn cynnwys prif ddeiliaid portffolio'r Cabinet, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr perthnasol. Mae'r sesiynau her yn ystyried cynnydd a heriau o ran pob un o'r Nodau Llesiant yn y Cynllun Corfforaethol, ac yn gyfle i ystyried blaenoriaethau, camau, Dangosyddion Perfformiad Allweddol a thargedau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

75. Mae'r dull hwn yn caniatáu ar gyfer ymgysylltu â'r Panel Perfformiad bob mis Ionawr / Chwefror. Mae'r Panel Perfformiad yn caniatáu i Gadeirydd pob Pwyllgor Craffu:

- Ystyried yr Asesiad Canol Blwyddyn a gwneud argymhellion ar gyfer gwella yn ogystal ag awgrymiadau polisi strategol i'w hystyried fel rhan o’r gwaith o ddatblygu’r Cynllun Corfforaethol.

- Llywio Cynllun Corfforaethol: gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau, y camau, y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a’r targedau y cynigir eu cynnwys o fewn y Cynllun Corfforaethol diwygiedig.

76. Mae’r Cynllun Corfforaethol yn rhan o Fframwaith Polisi’r Cyngor, fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Felly, mae'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei ystyried yn ffurfiol yn y Cyngor ac yn destun ystyriaeth gan yr holl aelodau etholedig. Roedd y Cynllun hefyd yn destun craffu ffurfiol cyn gwneud penderfyniad, ym mis Chwefror 2025, gan yr holl Bwyllgorau Craffu, gan gynnwys Adolygu Polisi a Pherfformiad (APaPh/*PRAP*). Datblygir y Cynllun Corfforaethol law yn llaw â Chyllideb y Cyngor, a thrwy hynny sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cyd-fynd â chyflawni ei flaenoriaethau polisi. Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Gyllideb yn cael eu cymeradwyo ar y cyd gan y Cyngor ym mis Chwefror / Mawrth pob blwyddyn ariannol. Cymeradwywyd Cyllideb a Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar 6 Mawrth 2025

77. Mae ansicrwydd ariannol wedi arwain at ohirio'r cyhoeddiad am y Setliad Cyllideb terfynol gan Lywodraeth Cymru am y ddwy flynedd ddiwethaf, ac roedd hyn hefyd yn wir am y gweithgarwch a gynhaliwyd yn ystod 2024/25 wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2025/26. Cynhaliwyd cynigion cyllideb 2024/25 y Cyngor rhwng 8 Ionawr 2024 a 4 Chwefror 2024, a chynhaliwyd ymgynghoriad y gyllideb ar gyfer cynigion cyllideb 2025/26 rhwng 9 Ionawr 2025 a 5 Chwefror 2025. Fel yr amlinellir o dan egwyddor B y DLIB hwn, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymgysylltu cynhwysol ac ystyrlon.

78. Yn unol â strategaeth gyfranogiad y Cyngor, mae seilwaith ymgysylltu helaeth y Cyngor yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod yr ymgynghoriad ar y gyllideb mor hygyrch â phosibl gyda ffocws penodol ar ymgysylltu â grwpiau prin y’u clywir. Er bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn nifer y grwpiau prin y’u clywir sy'n cymryd rhan yn ymgynghoriad y Cyngor, rhaid canolbwyntio ar gynyddu nifer gyffredinol yr ymatebion a gwella'r cyfraddau ymateb mewn rhai rhannau o'r ddinas a gyda rhai grwpiau demograffig. Mae'r ymgynghoriad yn galluogi aelodau'r cyhoedd i gyfathrebu eu barn ar y cynigion cyllidebol, gyda'r adroddiad ymgynghori ar y gyllideb yn darparu dadansoddiad o'r canlyniadau yn ôl grwpiau demograffig a chwintelau amddifadedd. Mae hyn yn caniatáu i wneuthurwyr penderfyniadau ddeall barn gwahanol grwpiau o fewn y ddinas ac i wneud penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan lais dinasyddion. Yn dilyn y broses ymgynghori, mae tystiolaeth amlwg bod cynigion yn cael eu diwygio gydag un cynnig heb gael mynd yn ei flaen ac un arall yn symud ymlaen ar lefel is.

79. Mae ymagwedd fesul cam tuag at Strategaeth Cyllideb y Cyngor dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn allweddol i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Yn ystod 2024/25, ystyriodd y Cabinet adnewyddu’r Strategaeth Gyllideb ar 18 Gorffennaf 2024 a adnewyddodd ddarlun ariannol y Tymor Canolig a ystyriwyd yn flaenorol ym mis Mawrth 2024 fel rhan o adroddiad gosod cyllideb 2024/25. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar set o ragdybiaethau sy'n cwmpasu cyllid, lefelau gwasanaeth, pwysau galw, cynnydd yn y dreth gyngor yn ogystal â ffactorau economaidd allanol o’r DU a ffactorau daearyddol-wleidyddol. Mae angen

i'r ymagwedd hwn fod yn gwbl gynhwysol gyda dealltwriaeth o bwysau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gan geisio mynegi effaith ariannol y pwysau hynny. Mae angen adnewyddu ac adolygu hyn yn rheolaidd. Arweiniodd yr adnewyddiad terfynol ar y rhagdybiaethau at adroddiad Cyllideb y Cyngor 2025/26 ar 6 Mawrth 2025 a nododd fwlch tymor canolig o £122 miliwn ar gyfer y cyfnod 2026/27 i 2029/30.

80. Mewn ymateb i'r galw am wasanaethau a'r pwysau cyllidebol a wynebai'r Cyngor ym mis Mai 2024, cychwynnodd y Cabinet asesiad cynhwysfawr, dan arweiniad gwleidyddol i adolygu ac ailgynllunio gwasanaethau a ffyrdd o weithio. Llywiwyd y broses adolygu gan egwyddorion agenda polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' y Weinyddiaeth a chyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Yn ystod 2024/25 cwblhawyd hunanasesiad manwl ar wasanaethau a chyllidebau gan yr holl wasanaethau gydag opsiynau posibl ar gyfer diwygio, gwella ac effeithlonrwydd yn cael eu creu a'u hystyried trwy broses dan arweiniad y cabinet. Ar yr un pryd, cynhaliwyd adolygiadau trawsbynciol o alluogwyr corfforaethol allweddol i adnabod newid i wasanaethau a chyfleoedd ar gyfer arbedion cyllidebol ar gyfer y tymor byr-canolig a hirdymor. Bu’r rhaglen waith helaeth hon yn sail i ddatblygu Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2025-28 a chynigion cyllideb ar gyfer 2025/26. Cryfhaodd hefyd yn sylweddol ymagwedd y Cyngor at sicrhau gwytnwch gwasanaethau a gwytnwch ariannol yn ystod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Er mwyn sicrhau bod ffocws, goruchwyliaeth ac adnoddau priodol ar waith i yrru graddfa a chyflymder y newid sy'n ofynnol yn y meysydd allweddol hyn, mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau gwell ar waith, sy’n adrodd i'r Cabinet.

81. Bydd cyflawni'r agenda polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' yn golygu y bydd angen gweithredu cydlynol gan y Cyngor a'i bartneriaid. Mae BGC Caerdydd, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor, yn dwyn ynghyd arweinwyr y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ac yn adeiladu ar blatfform hir sefydlog o waith partneriaeth yn y ddinas. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi gosod rôl BGCau mewn statud a’i gwneud yn ofynnol i BGCau gyhoeddi asesiad o lesiant lleol, cynllun llesiant lleol ac adroddiadau cynnydd blynyddol.

D. **Pennu’r ymyriadau sydd eu hangen i optimeiddio’r gwaith o gyflawni’r deilliannau a fwriedir.**

82. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, caiff pob penderfyniad gan y Cabinet a’r Cyngor eu hategu gan adroddiadau ysgrifenedig gan Swyddogion ar oblygiadau cyfreithiol, pobl (AD), eiddo ac ariannol y penderfyniad. Hefyd, mae angen yr adroddiadau hyn i amlinellu’r canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, ymgynghoriadau aelodau, y risgiau allweddol a’r camau gweithredu amgen sydd ar gael.

83. I fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, mae’r Cyngor wedi cyhoeddi nodau llesiant a datganiad lles yn rhan o ddatblygiad y Cynllun Corfforaethol. Mae’r Cynllun Corfforaethol yn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei hystyried yn barhaus, gyda ffocws ar ystyried y 5 ffordd o weithio ar gam cynnar yn y gwaith o ddatblygu polisi. Anogir datblygu polisi, ar draws y sefydliad, i ystyried:

- **Hirdymor:** Y tueddiadau sy'n effeithio ar Gaerdydd heddiw ac yn y dyfodol.

- **Atal:** Ymyrryd yn gynharach i atal problemau sy'n effeithio ar ddinasyddion rhag digwydd neu waethygu.
- **Cynnwys Pobl:** Ymgysylltu â dinasyddion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.
- **Integreiddio:** Gweithio ar draws ffiniau i gyflawni agenda bolisi'r weinyddiaeth ar gyfer y ddinas.
- **Cydweithio:** Gweithio gydag eraill i gael mwy o effaith.

84. Mae'r Cyngor yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i hunanasesu cynnydd yn erbyn y Nodau Llesiant, gan gynnwys:

- **Cynnydd yn erbyn Mesuriadau Perfformiad Allweddol y Cyngor** – Nodir nifer o fesuriadau perfformiad yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor sy'n helpu i ddangos y cynnydd a wnaed i gyflawni'r Nodau Llesiant. Pan yn berthnasol, rhoddir targedau yn erbyn y mesuriadau perfformiad hyn i ddangos lefel y cyrhaeddid a ddymunir. Neilltuir statws CMG i fesuriadau perfformiad: GWYRDD pan fo'r canlyniad yn bwrw'r targed neu'n rhagori arno; MELYN pan fo'r canlyniad o fewn 10% i'r targed, a CHOCH pan fo'r canlyniad yn fwy na 10% oddi wrth y targed.
- **Cynnydd yn erbyn y Camau ym mhob Nod Llesiant** - Gwnaeth y Cyngor gynnwys nifer o gamau yn y Cynllun Corfforaethol i helpu i gyflawni'r Nodau Llesiant. Mae monitro cynnydd y Camau hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r hyn a gyflawnwyd a lle mae angen mwy o waith.
- **Adroddiadau Archwilio** – Mae'r Cyngor yn destun nifer o archwiliadau gan gyrff rheoleiddio gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn (Addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae eu canfyddiadau'n helpu'r Cyngor i asesu meysydd perfformiad cryf, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen gwella.
- **Arolygon ac Adborth Dinasyddion** - Mae arolwg blynyddol Holi Caerdydd, yn ogystal â gwaith ymgynghori ac ymgysylltu mwy penodol, yn rhoi cyfle i ddinasyddion Caerdydd rannu eu barn ar amrywiaeth eang o wasanaethau'r Cyngor.
- **Monitro Cyllid** - Mae Adroddiad Alldro ac Adroddiadau Monitro'r Gyllideb y Cyngor yn cael eu hystyried gan y Cabinet a'r Cyngor llawn gydol y flwyddyn ariannol.
- **Adborth gan Bwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** - Mae'r Cyngor yn ymateb i faterion ac argymhellion sy'n cael eu codi gan y Pwyllgorau Craffu, sy'n helpu i lywio gwelliant mewn perfformiad.
- **Risg** – Ystyrir Risgiau Corfforaethol a Chyfarwyddiaethol y Cyngor fel rhan o gipolwg crwn ar berfformiad.

85. Trwy ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae'r Cyngor yn monitro cynnydd ond hefyd yn nodi meysydd gwella, yn dathlu llwyddiant, ac yn nodi meysydd lle na fu'r perfformiad cystal, ac felly'r meysydd sydd angen mwy o sylw.

86. Mae gan y Cyngor hefyd drefn perfformiad ac atebolrwydd gadarn sy'n cynnwys llywodraethiant gwleidyddol ehangach y Cyngor. Wrth ddatblygu hunanasesiad perfformiad, cymerwyd y camau canlynol i sicrhau asesiad llawn a chytbwys:

- Dadansoddiad o Berfformiad Cyfarwyddiaethau
- Sesiynau Sicrwydd a gynullwyd gan y Prif Weithredwr gyda phob Cyfarwyddwr.
- Sesiynau Sicrwydd, a gynullwyd gan y Cabinet, gyda'r Prif Weithredwr ac Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor
- Adolygiad Panel Perfformiad, a gynullwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu APaPh, ac sy'n cynnwys Cadeirydd pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor;
- Ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu APaPh

87. Roedd cyfathrebu â staff yn parhau i fod yn ffocws allweddol ac i sicrhau yr ymgynghorwyd â staff a'u bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Defnyddiwyd gwahanol sianeli cyfathrebu gan gynnwys Diweddariad y Prif Weithredwr, y Briff Craidd, negeseuon Gwybodaeth i Staff, yr Ap Staff, a DigiGov (system AD y Cyngor).

88. Mae cynnwys dinasyddion wedi parhau i fod yn ddull pwysig o nodi a dylunio gwasanaethau i fodloni anghenion a disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion yng Nghaerdydd yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllidebol. Mae gwelliannau wedi'u nodi a'u rhoi ar waith i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod pob grŵp yn cael eu cynnwys wrth ystyried newid gwasanaethau neu gynigion cyllidebol. Er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar brosiectau, mae'r Cyngor yn parhau i fod â thempled Achos Busnes ar waith gan ddefnyddio "Model Pum Achos" Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OGC) ond gyda ffocws ar sicrhau nad yw'r broses yn mynd yn rhy fiwrocrataidd ac yn parhau i fod yn weithgaredd sy'n ychwanegu gwerth wrth ddarparu sicrwydd ar risgiau a chyfleoedd. Mae proses ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf yn ei gwneud yn ofynnol caniatáu i Achos Busnes llawn cadarn gael ei ystyried yn y penderfyniad cyllideb y flwyddyn ganlynol.

89. Mae Strategaeth Cyllideb y Cyngor yn seiliedig ar ddull cyllidebu cynyddrannol lle caiff cyllidebau i raddau helaeth eu llywio gan flaenoriaethau corfforaethol a siâp gofynnol y sefydliad yn y dyfodol. Yn ystod 2024/25, cafodd y themâu ar gyfer arbedion yn Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2025/26 eu categoreiddio fel Effeithlonrwydd, Newid Gwasanaeth a Chreu Incwm ac roeddent yn adlewyrchiad o'r hinsawdd ariannol heriol gyda chostau chwyddiant a phwysau galw yn uwch na newidiadau cynnydd i gyllid. Yn ystod 2024/25, cyhoeddwyd pedwar adroddiad monitro cyllideb yn rhoi rhagor o fanylion ar berfformiad monitro ariannol y cynigion cyllideb hyn. Roedd cyflawni arbedion yn y gyllideb yn risg ariannol allweddol i'r Cyngor wrth osod ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol, ac mae'n parhau i fod, yn enwedig wrth weithredu o fewn hinsawdd ariannol caeth gyda phwysau galw sylweddol mewn gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.

90. O ran is-gwmnïau'r Cyngor, yn ystod 2024/25 mae'r gwaith hwn wedi mynd rhagddo ac mae holiadur is-gwmnïau wedi'i gwblhau gan y cyfarwyddiaethau perthnasol. Mae hyn wedi'i ategu gyda datblygu rolau cliriach a chylch gorchwyl ar gyfer swyddogion unigol er mwyn ei gwneud yn eglur ble maent yn cynrychioli'r is-gwmni neu'r Cyngor fel cleient.

91. Mae ein hymagwedd wrth sicrhau Buddion Llesiant Cymunedol (BLlC) a gwerth Cymdeithasol yn canolbwyntio ar gyflawni ymrwymiadau a gynigir gan gynigwyr sydd

uwch law'r gofynion contract sylfaenol ac fel arfer mewn contractau gwerth mwy na £250,000 ond lle mae cyfleoedd i'w cael lle bo'r gwerth yn is fe'u ceisir hwy hefyd. Mae'r Uwch Swyddog Strategaeth ar gyfer Gwerth Cymdeithasol yn gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Strategol Buddion Llesiant Cymunedol er mwyn annog cyfranogiad ar draws cyfarwyddiaethau a chontractwyr wrth fonitro'r ymrwymiadau gwerth cymdeithasol unwaith y bydd contractau wedi'u llofnodi a'u dyfarnu. Bob chwarter adroddir ar nifer yr ymrwymiadau sydd wedi'u cyflawni yn ystod y chwarter gyda ffigurau blynyddol yn cael eu darparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Rhennir yr ymagwedd a chyflawniad BLIC ar draws y Bartneriaeth Ardal a Chynghorau ledled Cymru drwy rwydwaith caffael CLILC a chylchlythyr chwarterol BLIC. Maes i'w ddatblygu yw gweithio tuag at fodel lle mae'r Cyngor yn nodi meysydd blaenoriaeth a fydd yn elwa o BLIC fel rhan o'r broses dendro fel y gall cynigwyr dargedu eu hymrwymiadau BLIC yn unol â'n hanghenion ardal lleol.

## E. Datblygu capasiti yr endid, gan gynnwys gallu'r arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo.

92. Mae'r cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ac o ran awdurdod wedi eu nodi yn glir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae hyn yn disgrifio rolau a'r berthynas o ran gwneud penderfyniadau rhwng y Cyngor Llawn, y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau Anweithredol eraill. Mae hefyd yn manylu ar benderfyniadau a ddirprwywyd i uwch swyddogion drwy'r haenau rheoli gwahanol.

93. Y Cabinet yw'r rhan o'r Cyngor sy'n gyfrifol am wneud y rhan fwyaf o'r prif benderfyniadau. Mae'r Cabinet yn cynnwys yr Arweinydd a etholir gan y Cyngor a hyd at naw Aelod Cabinet portffolio arall y mae'n eu henwebu i'w cymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r ddeddfwriaeth bellach yn caniatáu i Aelodau Cabinet rannu swyddi ac fe barhaodd hynny ar gyfer 2024/25 gyda dau bortffolio yn cael eu rhannu. Mae'n rhaid i'r Cabinet wneud penderfyniadau yn unol â pholisïau cyffredinol a chyllideb y Cyngor. Os yw'n dymuno gwneud penderfyniad nad yw'n rhan o'r gyllideb na'r fframwaith polisi, mae'n rhaid ei gyfeirio at y Cyngor llawn i wneud penderfyniad. Fel awdurdod dan arweiniad aelodau, mae ymrwymiad a ffocws ar roi arweinyddiaeth gref.

94. Ein Prif Weithredwr (Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig) yw'r aelod staff uchaf ac mae'n arwain o ran cyfrifoldeb dros reolaeth yn gyffredinol a thros yr Uwch Dîm Rheoli. Mae rolau statudol y Swyddog A151 (Cyllid) a'r Swyddog Monitro yn parhau i gael eu gwneud gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau) a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, yn y drefn honno.

95. Mae pob Swyddog newydd yn cyflawni lefel sefydlu briodol sy'n cynnwys cyflawni cyfres o fodiwlau hyfforddiant e-ddysgu gorfodol. Mae gan bob modiwl hyfforddiant gorfodol ei ddyddiad targed ei hun i sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Mae'r modiwlau hyfforddi gorfodol ar gyfer yr holl staff yn cynnwys Diogelu Corfforaethol, Seiberddiogelwch, Diogelu Data, Ymwybyddiaeth o Dwyll, Cyflwyniad i'r Gymraeg, Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig, Caethwasiaeth Fodern a Hawliau Plant. Mae'r perfformiad yn erbyn pob modiwl yn cael ei adrodd ar lefel Cyfarwyddiaeth ac Uwch Reoli. Wrth edrych ymlaen at 2025/26 mae dau fodiwl

hyfforddi gorfodol newydd wedi'u lansio sy'n ymwneud ag Aflonyddu Rhywiol yn y Gwaith a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r dull o gyflwyno ar gyfer Seiberddiogelwch yn wahanol am ei fod yn cynnwys pytiau gwybodaeth misol ond mae cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro'n agos iawn. Mae yna fodiwlau hyfforddi sydd hefyd wedi'u dynodi'n orfodol ar gyfer y staff hynny sy'n cyflawni rolau penodol, ac mae'r modiwlau hyn yn cynnwys Ymwybyddiaeth o TAW, Diwydiant Cardiau Talu a Phrynu'n Gyfrifol. Rydym yn cyfleu ein gwerthoedd, ein hamcanion, ein polisïau a'n gweithdrefnau i staff newydd a staff presennol ac Aelodau drwy raglenni sefydlu ac ymgysylltu.

97. Mae Rhaglen Rheolwyr Caerdydd fewnol yn cynrychioli ymrwymiad i gynyddu dysgu a datblygu ar gyfer staff sydd â chyfrifoldebau rheolwr llinell. Mae'r rhaglen yn parhau i gael ei chynnig yn ehangach ar draws y corff Swyddogion heb y gofyniad i sefyll cymhwyster lefel 3 ffurfiol SARh.

98. Caiff perfformiad swyddogion ei werthuso'n bennaf trwy broses Adolygiad Personol y Cyngor, sy’n cynnig fframwaith i weithwyr a rheolwyr drafod perfformiad ac ymddygiad yn y gweithle yn ogystal â nodi anghenion dysgu a datblygu. Mae’n galluogi cyflogeion i ddeall yn glir eu rolau, eu cyfrifoldebau a’r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt a hefyd yn rhoi dealltwriaeth glir o sut mae eu swyddi a’u hymdrechion yn cyfrannu at amcanion y Cyngor. Mae Adolygiadau Personol i Aelodau hefyd ar waith i’w helpu i ddiweddaru eu gwybodaeth a dysgu sgiliau newydd pan fo’n ofynnol, i fod yn fwy effeithiol wrth gefnogi eu cymunedau. Mae gan Academi Cyngor Caerdydd gyfres o raglenni a chyrsiau dysgu a datblygu cynhwysfawr y gellir eu cyrchu a'u cyflawni o bell.

99. Mae iechyd a lles y cyflogeion yn flaenoriaeth i Strategaeth Gweithlu’r Cyngor. Mae’r Cyngor yn parhau i gefnogi’r Adduned ‘Amser i Newid', mae wedi cael ei gydnabod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd Lefel 2 gyda'r achrediad wedi'i ymestyn hyd at fis Hydref 2026, a pharhaodd i lynu wrth y Siarter Marw i Weithio a chyflawni Gwobr Arian y Safon Iechyd Corfforaethol.

100. Ym mis Mai 2025, ystyriodd y Cabinet asesiad effaith cychwynnol bil Gwasanaethau Bysiau Llywodraeth Cymru (Cymru), sy'n anelu at newid y ffordd y mae gwasanaethau bysiau yn cael eu llywodraethu, eu cynllunio a'u darparu e.e. drwy fasnachfreinio. Er nad yw effeithiau posibl diwygio’r bysiau yn glir ar hyn o bryd, mae'n hanfodol bod y cyngor yn ei rolau priodol yn cynnal asesiad effaith cynnar. Mae hyn yn cynnwys sicrhau, fel cyfranddaliwr, bod Bwrdd Bws Caerdydd yn cael ei asesiad effaith ei hun o'r cynigion a'r opsiynau a nodir yn y rheoliadau arfaethedig. Bydd angen i'r Cyngor benderfynu sut mae'r opsiynau yn y rheoliadau yn effeithio ar werth ei gyfranddaliad sydd ymhlyg yn hynny a'i lefel o reolaeth a dylanwad.

101. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y weinyddiaeth ariannol (Swyddog A151) a threfniadau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor (UBRG). Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Rôl Prif Swyddogion Ariannol Llywodraeth Leol, sydd wedi’u nodi yng Nghod Rheolaeth Ariannol CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg) (2020).

102. Mae'r Cyngor yn parhau i ystyried ei reolaeth ariannol yn erbyn Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA (y Cod). Ffocws y Cod yw gwella gwydnwch ariannol sefydliadau drwy wreiddio safonau rheoli ariannol gwell. Parhaodd gwydnwch ariannol y Cyngor hwn ac awdurdodau lleol eraill i gael eu profi yn 2024/25. Diben y Cod yw cefnogi arfer da o ran rheolaeth ariannol ac mae'n trosi egwyddorion rheolaeth ariannol da yn gyfres o safonau y dylai Awdurdodau Lleol fesur eu hunain yn eu herbyn.

103. Gan adeiladu ar asesiadau blaenorol a gynhaliwyd, cynhaliwyd ymarfer pellach yn ystod 2024/25 yn erbyn y cod rheoli ariannol a chyflwynwyd y canlyniadau i'r Swyddog Adran 151 i nodi cyfleoedd i wella. Y canlyniad newydd o'r ymarfer hwn oedd yr angen i symud ymlaen i ddisodli'r systemau corfforaethol presennol gan gynnwys cyllid a chaffael ac edrych i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sy'n deillio o hyn i wella effeithlonrwydd, cywirdeb a phrydlondeb gwybodaeth. Yn ystod 2025/26, bydd y prosiect hwn yn cytuno ar gwmpas ei ofynion gyda'r bwriad o ddechrau proses gaffael yn Hydref 2025. Cydnabyddir y bydd hwn yn brosiect fydd angen llywodraethiant cadarn iawn ac ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod cost ac amser cyflawni yn cael eu rheoli'n effeithiol.

104. Mae ffocws ar wydnwch ariannol yn parhau trwy gynlluniau gwariant wedi eu tystiolaethu ac wedi'u hategu gan strategaethau cyllido cadarn, adnewyddu ac adolygu rhagdybiaethau cost a chyllid yn barhaus ar gyfer y Tymor Canolig Ariannol gyda'r angen i sicrhau bod y lefel angenrheidiol o arbedion cyllideb yn cael eu clustnodi a'u cyflawni. Yn sail i'r blaenoriaethau hyn mae'r angen i sicrhau bod y lefel briodol o gapasiti a sgiliau ar gael gydol y cyfnod ac yn y meysydd angen.

105. Mae gofynion y Cod a'r angen am dystiolaeth wedi bod yn ystyriaeth fawr wrth ddatblygu strategaethau ariannol allweddol y Cyngor megis y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Chynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai.

## F. Rheoli risg a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

106. Mae rheoli risg yn rhan ganolog o’r gwaith o wneud penderfyniadau strategol ac yn elfen allweddol o reoli busnes, cynigion y gyllideb, strategaeth y gyllideb, ac ystyriaethau rhaglenni a phrosiectau. Cynhelir Cofrestr Risg Corfforaethol (CRC) ac fe’i hadolygir gan yr UDRh bob tri mis er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys y prif risgiau i’r weledigaeth, yr amcanion a’r blaenoriaethau corfforaethol. Adroddwyd ar y Gofrestr Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gydol 2024/25 i roi cyfle iddynt wneud sylwadau a holi cwestiynu ar statws risgiau corfforaethol ac a yw ymateb y rheolwyr yn gymesur ai peidio.

107. Parhaodd y Strategaeth a’r Polisi Rheoli Risg i dderbyn cefnogaeth gan Bencampwr Risg Enwebedig, Uwch Swyddog pencampwr Risg a rhwydwaith o Bencampwyr Risg Cyfarwyddiaethau. Mae’r broses wedi ei chynllunio i sicrhau perchnogaeth glir o’r risgiau a nodir, a adolygir ac a ddygir ymlaen yn systematig bob chwarter ariannol. Targed ar gyfer gwella fu sicrhau bod yr holl risgiau corfforaethol wedi ystyried a gweithredu dyddiadau targed ar gyfer camau risg unigol. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y grŵp rheoli risg Dinasoedd Craidd i ddarparu meincnodi ystyrlon ac arfer

gorau i'w rhannu ar draws y grŵp ar sut mae pob cyngor wedi adnabod risgiau corfforaethol a sganio’r gorwel am risgiau sy'n dod i'r amlwg.

108. Cynlluniwyd pum Pwyllgor Craffu sefydlog y Cyngor i gynorthwyo’r Cabinet i ddarparu gwasanaethau hygyrch, effeithlon ac effeithiol ar gyfer dinasyddion. Cynhaliwyd 43 o gyfarfodydd Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn ddinesig 2024/25 o’i gymharu â 48 yn 2023/24. Cynhaliwyd dau gyfarfod fel cyd-bwyllgorau rhwng dau bwyllgor craffu unigol lle penderfynwyd bod adnoddau yn cael eu cyfuno orau ar gyfer craffu penodol.

109. Mae Cyfarfodydd Craffu yn craffu cyn bod penderfynu, yn monitro ac yn adolygu polisïau a lansio ymholiadau manwl er mwyn helpu’r Cabinet i ddatblygu ac adolygu polisïau a gwasanaethau. Mae’r rhan fwyaf o’r argymhellion sy’n dod gerbron y Cabinet yn dilyn Ymholiadau Craffu yn cael eu derbyn yn llawn. Mae nifer o weithgareddau cydweithredol y Cyngor yn cael eu llywodraethu gan Gyd-bwyllgorau y gellir eu gweld ar wefan y Cyngor.

110. Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheolaeth fewnol a nodir yn y tri datganiad sicrwydd a geir yn y DLIB hwn gan y Rheolwr Archwilio, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gan yr Uwch Dîm Rheoli yn y drefn honno.

## G. Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

111. Mae'r Cyngor yn parhau i anelu at sicrhau bod yr holl adroddiadau ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn cael eu hysgrifennu mewn ffordd deg, gytbwys a dealladwy. Mae’n parhau i fod yn wir bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi gwybodaeth lawn a chyflawn i ddangos didwylledd clir heb fod yn rhy drwm neu’n or-gymhleth.

112. Un o nodau eraill y Cyngor yw sicrhau ei bod yn hawdd i’r Cyngor a’r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth a’i defnyddio. Lle mae'n amlinellu'r mathau o wybodaeth a ddylai fod ar gael yn rheolaidd. Wrth wneud hynny, mae'r Cyngor yn alinio ei ddull gweithredu â chynllun cyhoeddi enghreifftiol diweddaraf y Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n nodi'r categorïau gwybodaeth a ddylai fod ar gael yn rheolaidd. Yn dilyn adolygiad diweddar, mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod yn bodloni gofynion y cynllun cyhoeddi enghreifftiol diweddaraf. Lle nad yw gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi oherwydd cyfyngiadau ymarferol megis heriau wrth wneud gwybodaeth benodol yn hawdd ei chyrchu, mae'n parhau i fod ar gael ar gais drwy'r broses Rhyddid Gwybodaeth.

113. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cynnal hawliau unigolion o dan Reoliad Diogelu Data'r DU (UK GDPR), gan sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn gyfreithlon, yn dryloyw ac yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys parchu hawliau unigolion i gael mynediad, i gywiro a dileu, a chynnal arferion llywodraethiant cadarn i ddiogelu gwybodaeth bersonol trwy adolygiadau mewnol rheolaidd.

114. Asesiad o lywodraethiant y Cyngor yw’r DLIB a gymhwysir i ‘Gyflawni Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol’ fframwaith CIPFA / SOLACE, fel yr amlinellir yn y Broses Asesu a’r Crynodeb. Mae gan yr Uwch Dîm Rheoli gynllun gweithredu sy’n cynnwys

materion llywodraethu sylweddol, sy’n cynrychioli datganiad agored o’r prif broblemau llywodraethiant sydd angen sylw yn dilyn adolygiad o’r Datganiad Sicrwydd Uwch Reolwyr. Mae cynnydd ar eitemau sydd yng Nghynllun Gweithredu’r DLlB ar gyfer 2024/25 wedi'u cynnwys yn yr adran ganlynol.

116. Ddiwedd mis Mawrth 2024, cymeradwyodd y Cyngor drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer cyflawni rôl y Cyngor fel ymddiriedolwr corfforaethol, sy'n cynnwys sefydlu:

(i) Pwyllgor Cabinet Ymddiriedolaethau, sydd wedi'i awdurdodi i arfer swyddogaethau'r Cyngor fel ymddiriedolwr corfforaethol, gan gynnwys mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau priodol; a

(ii) Pwyllgor Ymgynghorol Ymddiriedolaethau Annibynnol, yn cynnwys 3 aelod annibynnol o’r Pwyllgor Safonau a Moeseg, wedi eu hawdurdodi i ystyried unrhyw gynigion o ran Ymddiriedolaethau lle mae gan y Cyngor wrthdaro buddiannau difrifol (yn unol â chanllawiau’r Comisiwn Elusennau), ac i wneud argymhelliad/ion i’r Pwyllgor Cabinet Ymddiriedolaethau pa un ai a ddylid cytuno i’r cynnig ai peidio, gydag addasiad/au neu hebddynt, er budd gorau’r Ymddiriedolaeth, gan ystyried yr holl faterion a chyngor perthnasol.

Roedd y trefniadau llywodraethu newydd yn destun craffu cyn gwneud penderfyniad gan y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ym mis Mawrth 2024 a Mawrth 2025, gyda nifer o argymhellion wedi'u gwneud a'u derbyn (yn llawn neu'n rhannol).

117. Ym mis Mawrth 2025, cynhaliodd y Pwyllgor Cabinet Ymddiriedolaethau ei gyfarfod cyntaf gan nodi bod adolygiad o ymddiriedolaethau'r Cyngor yn cael ei gynnal gan dîm amlddisgyblaethol o swyddogion, bod gwelliannau yn cael eu gwneud i gronfeydd data a phrosesau, a blaen raglen waith flaengar ar gyfer penderfyniadau gan Ymddiriedolaethau yn y dyfodol. Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, cymeradwywyd Polisi Gwrthdaro Buddiannau ar wahân ar gyfer Ymddiriedolaethau’r Cyngor, ynghyd â dirprwyo swyddogion ar gyfer delio â materion gweithredol arferol yr Ymddiriedolaethau, tra'n cadw penderfyniadau arwyddocaol Ymddiriedolaethau i'r Pwyllgor. Nid yw cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cabinet Ymddiriedolaethau wedi'i drefnu eto, ond mae'n debygol o gael ei gynnal yn Hydref 2025.

118. Bob mis Mai (dechrau'r Flwyddyn Ddinesig), mae'r Cyngor yn cytuno ar gyfansoddiad Pwyllgorau o ran eu maint, eu cylch gorchwyl a’r dyraniad seddi. Yn ystod 2023/24 roedd mwyafrif y cyfarfodydd yn defnyddio technoleg cyfarfod hybrid. Ni newidiwyd Cyfansoddiad y Cyngor yn ystod 2024/25 ond cynhaliwyd adolygiad ar y Cyfansoddiad a'i newid yn gynnar yn y flwyddyn ganlynol ym mis Mai 2025. Mae’r Cyngor wedi penodi nifer o Bwyllgorau i gyflawni gwasanaethau rheoleiddio a chraffu ac maent yn paratoi adroddiadau blynyddol ar eu perfformiad a’u canfyddiadau.

119. Ar 26 Medi 2024, ystyriodd a chymeradwyodd y Cyngor setliad anghydfod Treth Tirlenwi gyda CThEF. Fel y soniwyd yn y datganiad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, roedd eitem ar yr agenda ym mis Ionawr 2025 lle holwyd swyddogion er mwyn sefydlu a oedd angen unrhyw adolygiad neu linell ymholiad pellach. Er bod y

Pwyllgor yn fodlon nad oedd llinell ymholi ychwanegol, mae pwyslais yn parhau i fod ar drefniadau sicrwydd ar gyfer cydymffurfio, gyda haenau pellach ar waith megis diwylliant o chwilfrydedd proffesiynol ac uwch gyfeirio yn cael ei hyrwyddo. Mae'r gwelliant hwn yn cael ei gydnabod ac wedi ei ymgorffori i Gynllun Gweithredu DLIB ar gyfer 2025/26 wrth sicrhau lefel gymesur o sicrwydd o fewn amgylchedd Cydymffurfio pob cyfarwyddiaeth.

120. Cyn i wasanaethau gael eu darparu trwy drydydd partïon neu trwy drefniadau cydweithio, mae'r Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol yn helpu cyfarwyddiaethau i sicrhau y caiff cyfrifoldebau ac atebolrwydd dros lywodraethiant a rheoli risg eu dogfennu'n ddigonol. Mae'r strategaeth a'r polisi rheoli risg yn gofyn am drefniadau rheoli risg clir ym mha bynnag fodel darparu gwasanaethau a ddefnyddir.

121. Mae Cyngor Caerdydd yn croesawu herio gan gymheiriaid, adolygiadau ac ymchwiliadau gan gyrff rheoleiddio er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch darparu gwasanaethau neu fel modd o adnabod cyfleoedd i wella.

**Cynllun Gweithredu'r DLIB 2024/25 – Materion Llywodraethu Sylweddol**

122. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn berchen ar gynllun gweithredu ar gyfer materion llywodraethu sylweddol a chaiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Caiff yr adolygiad ei ategu gan sesiynau her ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth a gadeirir gan y Prif Weithredwr gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn bresennol. Roedd y pedwar maes a ystyriwyd ar gyfer 2024/25 yn cynnwys un cam gweithredu wedi ei ddwyn ymlaen a thri cham gweithredu newydd. Mae'r camau gweithredu a'r cynnydd hyd yma wedi'u nodi isod.

**CAM GWEITHREDU: Ymestyn y sicrwydd ar ansawdd adolygiadau perfformiad drwy gasglu tystiolaeth ar lefel Cyfarwyddiaeth.**

Mae cyfarwyddiaethau wedi targedu ansawdd yr adolygiadau perfformiad wrth geisio sicrhau bod cydymffurfiaeth lawn o 100% hefyd yn cael ei gyflawni. Yn eu hadolygiad o'u hasesiad ar adolygiadau perfformiad, mae cyfarwyddiaethau wedi targedu cyfathrebu â rheolwyr a staff ac wedi derbyn adroddiadau yn ôl yn nhermau yr hyn sydd wedi'i gyflawni. Yn ogystal, mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi cytuno yr adroddir ar yr 8 modiwl hyfforddi gorfodol ar gyfer 2025/26 ar gyfer cydymffurfiaeth gan ei gwneud yn amhosibl i unigolyn nad yw'n cydymffurfio gael ei raddio fel un sy'n cyflawni neu'n uwch. **WEDI CAU**

**CAM GWEITHREDU - Cryfhau'r trefniadau i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) o ansawdd uchel yn cael eu cwblhau yn systematig a sicrhau bod AEGau yn cael sylw dyledus yn y broses o wneud penderfyniadau.**

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn derbyn adroddiadau rheolaidd sy'n sgrinio pob darpar Adroddiad Cabinet o ran yr angen am AEG ac yn tracio ei fod wedi'i gwblhau. Mae'r AEG yn cael ei adolygu'n annibynnol er mwyn sicrhau bod yr ansawdd o safon ddisgwyliedig. **WEDI CAU**

**CAM GWEITHREDU - Gwella trefniadau i sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn digwydd gyda rhanddeiliaid perthnasol ar yr adeg briodol, lle nodir hyn drwy'r broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.**

Gan adeiladu ar sefydlu cwblhau AEG yn systematig, ystyrir cwestiwn sicrwydd Ymgysylltu penodol gan bob cyfarwyddiaeth o ran sicrhau bod dealltwriaeth ynghylch pwy sydd angen cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad ynghylch newidiadau i fy ngwasanaethau, a pham; mewn unrhyw weithgaredd ymgynghori neu ymgysylltu, bod barn y grwpiau anoddaf eu cyrraedd yn cael eu hystyried a bod yr holl ofynion statudol o ran ymgynghori ac ymgysylltu yn cael eu bodloni. Ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael iddynt, graddiodd deg o'r deuddeg Gwasanaeth / Cyfarwyddiaeth eu hunain fel Cryf neu well gyda dim ond dau faes yn nodi eu hunain fel cymysg. Mae'r ddwy gyfarwyddiaeth dan sylw wedi nodi camau penodol ar gyfer 2025/26 sy'n ceisio sicrhau yn y lle cyntaf bod yr holl weithgareddau ar draws y gyfarwyddiaeth yn darparu sicrwydd llawn. **WEDI CAU**

**CAM GWEITHREDU - Sicrhau bod yr holl gyfarwyddiaethau yr effeithir arnynt wedi ymgymryd â'r holiadur is-gwmnïau ac wedi myfyrio ar y diweddariad canfyddiadau yn eu hasesiad blynyddol.**

Mae'r holiadur is-gwmnïau wedi'i gwblhau ar gyfer pob cyfarwyddiaeth berthnasol ac mae'r canfyddiadau wedi'u defnyddio i lywio'r lefel sicrwydd o ran partneriaethau. **WEDI CAU**

**Cynllun Gweithredu'r DLIB 2025/26 – Materion Llywodraethu Sylweddol**

123. Ar ôl ystyried y camau gweithredu sy'n deillio o Gynllun Gweithredu'r DLIB 2025/26 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyffredinol, cynigir bod pob un o'r pedwar cam gweithredu o 2024/25 yn cael eu cau. Ar ôl ystyried y meysydd lle roedd cyfarwyddiaethau unigol yn ystyried eu hunain fel cymysg neu cryf ar y cyfan, wedi hynny fe gynigiwyd camau gweithredu i gryfhau sicrwydd yn ystod 2025/26. Felly, nodir cynllun Gweithredu DLIB 2025/26 isod.

**CAM GWEITHREDU – Gan adeiladu ar y mesurau presennol sydd ar waith, i sicrhau bod lefel gymesur o gymhwyso sicrwydd o ran yr amgylchedd rheoli ar draws pob cyfarwyddiaeth ac i sicrhau bod ardaloedd risg uchel yn cael eu blaenoriaethu.**

**CAM GWEITHREDU – Adeiladu ar y mesurau presennol sydd ar waith, er mwyn sicrhau bod lefel gymesur o gymhwyso sicrwydd o ran yr amgylchedd Cydymffurfiaeth ar draws pob cyfarwyddiaeth ac i sicrhau bod meysydd risg uchel yn cael eu blaenoriaethu.**

**CAM GWEITHREDU - Manteisio ar y cyfle a grëwyd gan strwythurau uwch reolwyr newydd i atgyfnerthu negeseuon allweddol, ac i adeiladu eglurder a dyfnder i'r amgylchedd sicrwydd mewn cyfarwyddiaethau newydd sy'n cwmpasu meysydd risg.**

**Ardystio gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr**

**Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd**
**Dyddiad:**

**Paul Orders, Prif Weithredwr**
**Dyddiad:**